Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Crossgates
# Y Groes
# Llandrindod
# Powys
# LD1 6RE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Crossgates wedi'i lleoli ym mhentref y Groes, ddwy filltir i'r gogledd o Landrindod ym Mhowys. Mae gan yr ysgol 165 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 9 o blant meithrin amser llawn. Mae saith dosbarth, gan gynnwys un dosbarth â disgyblion oed cymysg.

Mae tua 15% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod tuag 11% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 25%. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan yr un disgybl. Daw ychydig bach iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym Mehefin 2010. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd ym Medi 2015.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Crossgates yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,556 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Powys yw £5,561 a'r lleiafswm yw £2,960. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Crossgates yn safle 46 o'r 83 o ysgolion cynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen
- mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando effeithiol a defnyddiant eirfa sy'n benodol i'r pwnc yn dda wrth siarad am eu gwaith
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen ac yn trafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen trwy roi tystiolaeth o'r testun
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau rhif, siâp, mesur a thrin data
- mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi dysgu disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau
- mae staff yn gwneud defnydd buddiol o amrywiaeth eang o strategaethau rheoli ymddygiad sy'n llwyddo i greu amgylchedd dysgu cynhwysol lle y mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- mae ethos gofalgar a chefnogol lle y mae'r holl ddisgyblion a staff yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd

Fodd bynnag:

- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn unig yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig yn eu medrau ysgrifennu, datrys problemau a rhesymu
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddihyder wrth ddefnyddio'u medrau llefaredd Cymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm
- mae llawer o athrawon yn gor-gyfeirio'r dysgu ac nid yw tasgau bob amser yn cynnig digon o her a chymorth i fodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- yn ystod y cyfnod cymharol fyr ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi gwneud nifer o welliannau allweddol i'r ysgol
- mae staff yn cydweithio ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm i gyflawni gweledigaeth yr

ysgol i greu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i ddisgyblion
- mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o'i pherfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg eraill
- mae'r pennaeth ac aelodau'r uwch dîm arwain yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella
- bellach, mae arweinwyr yn amlygu ac yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau pwysig, fel gwella ymddygiad a lles emosiynol disgyblion, sy'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn barod i ddysgu
- mae partneriaethau strategol buddiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at welliannau yn lles a safonau disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw rôl aelodau'r uwch dîm arwain a sefydlwyd yn ddiweddar o ran cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.
- nid yw'r corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon cadarn am y safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion
- nid yw prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon pendant ar wella deilliannau disgyblion
- dros gyfnod sylweddol, nid yw'r ysgol wedi sicrhau bod y defnydd ar yr holl adnoddau sydd ar gael yn cefnogi dysgu'r disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau ysgrifennu, datrys problemau a rhesymu yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella safonau llefaredd Cymraeg ar draws yr ysgol

A3 Cynllunio gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella cynllunio i sicrhau bod her fwy cyson i ddisgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl

A5 Cryfhau prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella fel eu bod yn effeithiol o ran codi safonau addysgu a dysgu

A6 Gwella rôl llywodraethwyr wrth ddyrannu adnoddau ariannol yr ysgol ac wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei deilliannau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn gyffredinol, gwnânt gynnydd da wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen a gwnânt gynnydd boddhaol yng nghyfnod allweddol 2. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn briodol ar draws amrywiaeth o bynciau, er enghraifft wrth gyfansoddi ffanffer Duduraidd mewn gwersi cerdd. Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud am gyfnodau priodol. Siaradant yn hyderus ag oedolion ac eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn esbonio'u meddyliau a'u syniadau'n llwyddiannus gan ddefnyddio amrywiaeth eang briodol o eirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc, er enghraifft wrth drafod sut i greu cyflwyniad electronig effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o ffoneg. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda mynegiant addas. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion llyfrau, fel clawr, darlunydd, broliant a theitl. Mae disgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau cip-ddarllen a llithr-ddarllen yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth mewn testun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Trafodant yr hyn maent wedi'i ddarllen yn abl, gan gyfiawnhau eu barn gyda thystiolaeth o'r testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion mwy abl yn esbonio'n dda pam mae awduron yn defnyddio geiriau neu ymadroddion er effaith benodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn defnyddio'u medrau darllen ar yr un lefel wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gymwys. Ffurfiant lythrennau yn gywir ac ysgrifennant eiriau a brawddegau syml i gyfleu ystyr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio brawddegau syml yn dda i gyfleu syniadau. Mae disgyblion mwy abl yn amrywio brawddegau yn bwrpasol i wneud eu hysgrifennu'n ddiddorol i'r darllenwr. Mae llawer yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth gyfyngedig o genres yn Saesneg ac ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu dameg yr heuwr. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn unig yn eu hysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae gan fwyafrif ddealltwriaeth sicr o nodweddion gwahanol arddulliau ysgrifennu. Defnyddiant amrywiaeth addas o eirfa ac atalnodi i drefnu eu gwaith. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau ysgrifennu'n ddigonol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddylunio taflen am argae Nant-y-Glo a Chwm Elan. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth ddigon eang o strwythurau brawddegau yn effeithiol ac nid yw gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Ar draws yr ysgol, mae gormod o amrywiaeth yng nghyflwyniad a llawysgrifen llawer o ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd ar draws y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith rhif, siâp, mesur a thrin data. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio'u medrau rhif yn llwyddiannus i ddatrys problemau geiriau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn lluosi rhifau tri a phedwar digid yn gywir gan ddefnyddio algorithmau ac maent yn cymhwyso'u medrau i ddatrys problemau geiriau yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn darllen ac yn plotio cyfesurynnau yn y pedwar pedrant yn llwyddiannus ac yn cylchdroi siapiau yn gywir. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau i ddatrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn nac yn datblygu'u medrau rhesymu rhifyddol yn ddigon da. Ar draws yr ysgol, nid yw gallu bron pob un o'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Defnyddiant becynnau data yn briodol i gyflwyno gwybodaeth ar graff, er enghraifft ar sut mae disgyblion yn teithio i'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arbed ac yn adalw eu gwaith eu hunain yn effeithiol iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn dda i gyflwyno gwybodaeth. Mae eu gallu i ddefnyddio ac archwilio cronfeydd data yn datblygu'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am ddysgu Cymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau llafar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, ymatebant i gwestiynau gan ddefnyddio ymadroddion syml a geirfa berthnasol yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan fwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg ac maent yn cyfathrebu'n gymwys wrth ysgrifennu. Darllenant destunau cyfarwydd gydag ynganiad addas ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn ddigon hyderus i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau a geirfa wrth siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion yn y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf heb unrhyw duedd amlwg. Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol uwchlaw'r canolrif yn ystod yr un cyfnod o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion yn y deilliant uwch wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf o ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol islaw'r canolrif yn gyffredinol, heblaw am y llynedd, pan osodwyd yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg wedi dangos gwelliant cyson dros y pedair blynedd diwethaf, gan osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar hyn o bryd. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae tuedd gyffredinol i lawr ym mherfformiad disgyblion yn y tri phwnc craidd dros yr un cyfnod, gan osod yr ysgol yn y 25% isaf ar hyn o bryd.

Nifer bach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, felly mae cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill yn annibynadwy.

Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio’n well na bechgyn mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig ar y lefel uwch na’r disgwyl. Mewn mathemateg, mae bechgyn yn tueddu i berfformio’n well yn y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu’n poeni. Maent yn hyderus y bydd staff yn delio’n brydlon ag unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau sy’n codi. Mae bron pob un yn dangos dealltwriaeth effeithiol o bwysigrwydd bwyta’n iach, diogelwch yn yr haul a chadw’n heini. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu’r ddealltwriaeth hon ymhellach trwy fynychu clybiau ar ôl ysgol, fel rhedeg neu bêl-rwyd.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o’r strategaethau mwyaf priodol i’w defnyddio os byddant yn pryderu neu’n poeni. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cydweithio ac yn cydchwarae’n dda. Dangosant lefelau da o oddefgarwch a gofal tuag at anghenion pobl eraill a dangosant barch tuag at oedolion a’u cymheiriaid.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio’n dda mewn gwersi. Maent yn awyddus i ddysgu a dangosant ddyfalbarhad yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw medrau gweithio’n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi’u datblygu llawn ymhlith llawer o ddisgyblion. Yn aml, nid ydynt yn glir ynghylch eu targedau ar gyfer gwella a sut bydd y rhain yn eu helpu i wella’u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r ‘Dewiniaid Digidol’ wedi codi proffil e-ddiogelwch yn effeithiol trwy gyflwyniad i'r ysgol gyfan a thrwy greu posteri diogelwch. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn deall sut i ddefnyddio TGCh yn ddiogel ac yn gyfrifol. Trafodant yn hyderus yr angen i gadw cyfrineiriau’n ddiogel er mwyn diogelu gwybodaeth. Mae’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol ac maent yn cynrychioli’r holl ddisgyblion yn dda. Maent yn trefnu digwyddiadau rheolaidd i godi arian ac ymwybyddiaeth o wahanol elusennau. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o anghenion pobl eraill.

Mae presenoldeb cyffredinol yr ysgol wedi dangos gwelliant cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae’r ysgol yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phresenoldeb disgyblion eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau’r diwrnod ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth briodol o brofiadau dysgu sy’n bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn cynllunio’r cwricwlwm ar sail rhaglen dreigl o bynciau sydd o ddiddordeb i ddisgyblion

yn gyffredinol ac sy'n hoelio'u sylw yn briodol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'n darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl neu fedrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ymweliadau addysgol a phrofiadau allgyrsiol yn dda i gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles ac ar fwynhad disgyblion o'r ysgol.

Megis dechrau gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd y mae'r ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid oes dilyniant addas yn natblygiad medrau disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu, wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddefnyddio TGCh i gefnogi dysgu disgyblion. Mae gan yr ysgol gynllun gwaith effeithiol ar gyfer TGCh sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygiad medrau Cymraeg disgyblion. Mae cyflwyno'r 'Criw Cymraeg' a phatrwm Cymraeg yr wythnos yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn dibynnu gormod ar ddatblygu medrau ysgrifenedig disgyblion. O ganlyniad, nid oes digon o hyder gan ddisgyblion i ddefnyddio'u medrau llefaredd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae cynllunio ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda, fel astudio straeon a chwedlau Cymru, eisteddfod yr ysgol ac ymweliadau preswyl â Llangrannog, yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth lwyddiannus o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Enghraifft effeithiol o hyn yw gweithgareddau'r clwb eco a gwyrdd, sy'n annog pob disgybl i weithredu'n gynaliadwy trwy leihau gwastraff plastig a phapur. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft wrth astudio coedwig law'r Amazon a chysylltiadau â Bulabakula yn Affrica. Mae hyn yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach yn llwyddiannus.

**Addysgu: Digonol**

Un o gryfderau'r ysgol yw'r perthnasoedd gwaith effeithiol sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae'r holl staff yn gwneud defnydd buddiol o amrywiaeth eang o strategaethau rheoli ymddygiad sy'n llwyddo i greu amgylchedd dysgu cynhwysol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, gan ddangos cwrteisi a pharch tuag at eu cymheiriaid a thuag at oedolion. Mae rhediad da i lawer o wersi ac, yn gyffredinol, mae athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn am y pwnc. Mae bron pob un o'r staff yn fodelau da o iaith ac yn datblygu defnydd disgyblion o eirfa sy'n berthnasol i bwnc yn dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau llefaredd Saesneg disgyblion wrth iddynt drafod eu gwaith.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau a strategaethau addysgu addas i gynnal diddordeb disgyblion. Mewn ychydig ddosbarthiadau, lle y mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n annog disgyblion i fod yn annibynnol trwy roi'r rhyddid iddynt ddewis sut i gofnodi eu gwaith eu hunain a dewis eu heriau eu hunain. Fodd bynnag, mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gorgyfeirio'r dysgu ac nid yw tasgau'n cynnig digon o her a chymorth i fodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf abl.

Yn gyffredinol, mae defnydd athrawon ar strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu gyda disgyblion yn llwyddiannus ac, mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn briodol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut i fod yn llwyddiannus yn eu gwaith ac i adolygu eu cynnydd eu hunain ar ddiwedd gwersi. Mae'r ysgol wedi datblygu hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn addas, er enghraifft wrth ddefnyddio 'pinnau caboli'. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio'r strategaethau hyn i wella ychydig agweddau ar eu gwaith ysgrifenedig. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn anghyson ac yn amrywio'n ormodol ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae'n nodi beth mae disgyblion yn ei wneud yn dda ac mae'n canmol eu hymdrechion. Fodd bynnag, nid yw targedau unigol disgyblion bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i helpu disgyblion i wella'u gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu ac olrhain perthnasol. Ar y cyfan, mae athrawon yn asesu disgyblion yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigonol i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r broses o asesu ac olrhain cynnydd disgyblion bob amser yn ddigon cywir er mwyn cynllunio'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae rhieni'n cael gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd rheolaidd i rieni a thrwy adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn, sy'n hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'n gwneud trefniadau pwrpasol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Trwy amrywiaeth eang o weithgareddau, mae'r ysgol yn hyrwyddo ffitrwydd corfforol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ei gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion, er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd gofalu a pheidio â gwahaniaethu, trwy ddameg y Samariad Trugarog.

Ers penodi'r pennaeth, mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau arloesol i hybu ymddygiad cadarnhaol. Enghraifft effeithiol o hyn yw defnyddio 'cuddfan' sy'n rhoi amser a lle i ddisgyblion hoelio'u sylw eto ar ddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn meddu ar strategaethau effeithiol i ymdopi â gwahanol sefyllfaoedd ac mae ymddygiad mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o wasanaethau arbenigol i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar gymorth proffesiynol pan fo angen. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu a'r nyrs yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel ac yn iach.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn nodi anghenion dysgu disgyblion yn gynnar ac yn rhoi cymorth buddiol. Mae staff cymorth hyfforddedig yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at ddysgu disgyblion trwy amrywiaeth o raglenni ymyrraeth effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio data asesu yn briodol i fesur cynnydd disgyblion drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae'r rhaglenni anogaeth a ddarperir i ddisgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cefnogi a gwella lles disgyblion sy'n manteisio arnynt yn hynod effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw ei hethos gofalgar a chefnogol. Mae hyn yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a hapus sy'n sicrhau bod disgyblion a staff yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd. Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau priodol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob disgybl.

Mae adeiladau'r ysgol yn lân, mewn cyflwr da ac yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae staff yn defnyddio pob rhan o'r adeilad yn dda i greu amgylcheddau dysgu ysgogol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddigynnwrf i ddisgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol ac mae'n caniatáu lle iddynt ailffocysu cyn parhau â'u dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad y disgyblion hyn. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio arddangosfeydd lliwgar i ddathlu gwaith disgyblion a chefnogi eu dysgu yn dda.

Mae amrywiaeth eang o adnoddau sydd o ansawdd da ac sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae amrywiaeth werthfawr o offer TGCh sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu'r rhan fwyaf o'u medrau TGCh yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae gan yr ysgol dir helaeth sy'n cynnig amgylchedd dysgu awyr agored ysgogol. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol rheolaidd i ddatblygu amrywiaeth o fedrau disgyblion yn yr awyr agored, er enghraifft wrth ddatblygu gweithgareddau llythrennedd yn y gegin fwd.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi gwneud nifer o welliannau allweddol i'r ysgol. O ganlyniad i'w harweinyddiaeth bwrpasol, mae staff yn cydweithio ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm i gyflawni gweledigaeth yr ysgol, sef creu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i ddisgyblion. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae aelodau'r uwch dîm arwain a sefydlwyd yn ddiweddar yn cefnogi'r pennaeth yn dda, gan rannu dyletswyddau rheolaidd dydd i ddydd yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl o ran cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a staff cymorth, gydag amcanion sy'n cysylltu'n addas â meysydd datblygu'r ysgol. At ei gilydd, mae'r prosesau'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu, er enghraifft yn y dull mwy cyson o ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Mae arweinwyr yn talu sylw perthnasol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft wrth wella deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a hybu bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith ar weithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ac nid yw wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o berfformiad yr ysgol a gwyddant sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion tebyg eraill. Yn ddiweddar, mae rhai o'r llywodraethwyr wedi dechrau cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau yn gysylltiedig â'u rôl. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion gyda chydlynwyr y cwricwlwm a chyfarfod â disgyblion i siarad â nhw am eu dysgu. Fodd bynnag, oherwydd bod y gwaith hwn yn gymharol newydd, nid yw'r corff llywodraethol yn monitro camau gweithredu i wella perfformiad yn ddigon da eto nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon trylwyr ar gyfer y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth ac aelodau'r uwch dîm arwain wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Defnyddiant wybodaeth o ddata cyrhaeddiad yn briodol ac maent yn cynnwys disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth addas o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys deilliannau arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion ac adolygiadau manwl gan gydlynwyr y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hyn yn ddisgrifiadol yn gyffredinol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon pendant ar wella deilliannau disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r prosesau hyn yn arwain at werthusiad digon cywir o berfformiad yr ysgol.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r holl athrawon yn cyfrannu tuag at ysgrifennu cynllun datblygu'r ysgol. Mae ganddo nifer o dargedau sydd â ffocws addas ar flaenoriaethau a nodwyd, fel gwella'r her i ddisgyblion mwy abl. Fodd bynnag, nid oes meini prawf digon clir gan lawer o'r targedau i fesur eu llwyddiant yn effeithiol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd i arweinwyr fonitro camau gweithredu yn y cynllun yn drylwyr ac arfarnu effaith mentrau ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon effeithiol. Nid yw'r cynllun bob amser yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer camau gweithredu nac yn targedu adnoddau yn ddigon da i gefnogi gwelliannau. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi nodi ac wedi gwella blaenoriaethau pwysig yn llwyddiannus. Mae'r gwaith ar ddatblygu lles emosiynol disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac wedi sicrhau bod pob disgybl yn barod i ddysgu. Mae blaenoriaethau fel datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau gwella deilliannau disgyblion.

Ers penodi'r pennaeth presennol yn unig y mae'r ysgol wedi dechrau gwneud cynnydd boddhaol tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol buddiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at welliannau yn lles a safonau disgyblion. Yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno ffyrdd effeithiol o ymwneud â rhieni a gofalwyr, er enghraifft trwy offeryn cyfathrebu ar-lein defnyddiol a chylchlythyron wythnosol. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am ddigwyddiadau a datblygiadau'r ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn codi llawer o arian i gefnogi gwaith yr ysgol, er enghraifft i brynu caledwedd TGCh ar gyfer yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn dechrau gwella safonau TGCh disgyblion.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned leol yn cryfhau cyfleoedd dysgu i ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i chwarae rhan weithgar yn yr ardal leol, fel cefnogi digwyddiad beicio Taith Prydain a nosweithiau ffilm cymunedol a gynhelir yn yr ysgol. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn cydweithredu'n effeithiol â lleoliadau cyn-ysgol lleol i baratoi plant ar gyfer dechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin.

Mae partneriaethau gyda gwasanaethau arbenigol yn yr awdurdod lleol yn cefnogi'r ysgol yn hynod effeithiol i roi gofal emosiynol a bugeiliol cryf i ddisgyblion penodol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgol uwchradd leol i ddarparu trefniadau pontio cefnogol i'r disgyblion hyn lle y gall unigolion ymweld â'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn rheolaidd.

Ar y cyd â'r clwstwr lleol o ysgolion, mae athrawon yn cymryd rhan mewn rhwydwaith proffesiynol i wella prosesau ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae portffolios defnyddiol o'r gweithgaredd hwn yn rhoi enghreifftiau o lefelau cyrhaeddiad ac, o ganlyniad, mae asesiadau athrawon yn gywir ar y cyfan.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cymorth sydd â chymwysterau priodol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm yn briodol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwneud defnydd perthnasol o arbenigedd a phrofiad staff, er enghraifft i gefnogi datblygiad meysydd y cwricwlwm. Mae datblygiad proffesiynol perthnasol i staff yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel cymhwysedd digidol ac anogaeth emosiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol fel timau ac yn dechrau elwa o ymweld â'u hystafelloedd dosbarth ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dechrau cymhwyso'r wybodaeth a'r medrau a enillant o'r gweithgareddau hyn mewn modd cymwys. Mae hyn yn dechrau gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn meysydd penodol, er enghraifft gwell cysondeb yn nefnydd athrawon ar hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid. Fodd bynnag, nifer bach iawn o athrawon sy'n cael cyfle ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol gyda rhwydweithiau ehangach o ysgolion.

Mae'r ysgol yn dyrannu ei grant amddifadedd disgyblion yn dda i ddarparu rhaglenni ymyrraeth ac anogaeth i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r strategaethau hyn yn effeithiol ac mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac sydd angen cymorth, yn cyflawni eu targedau.

Mae'r pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio cyllid yr ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod nodedig, mae'r ysgol wedi cadw cyfran sylweddol o'i chyllideb yn ôl. Mae yn yn golygu nad yw'r ysgol wedi sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n addas er budd disgyblion.

Yng ngoleuni'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662077 - YSGOL GYNRADD CROSSGATES**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 15 | 19 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 84.6 | 93.3 | 94.7 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 15 | 19 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.5 | 93.3 | 100.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | 20.0 | 42.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 15 | 19 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.2 | 93.3 | 100.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 34.6 | 20.0 | 42.1 | 23.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 15 | 19 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 100.0 | 94.7 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.8 | 80.0 | 68.4 | 76.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662077 - YSGOL GYNRADD CROSSGATES**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 24 | 12 | 24 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 87.5 | 83.3 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 12 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 83.3 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 33.3 | 21.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 12 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 91.7 | 95.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 37.5 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 12 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 83.3 | 95.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 41.7 | 37.5 | 21.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 81 | 76<br>94%<br>98% | 5<br>6%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 80 | 62<br>78%<br>92% | 18<br>22%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 77 | 71<br>92%<br>97% | 6<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 79 | 68<br>86%<br>97% | 11<br>14%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 78 | 66<br>85%<br>96% | 12<br>15%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 79 | 68<br>86%<br>96% | 11<br>14%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 80 | 78<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 81 | 77<br>95%<br>98% | 4<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 76 | 55<br>72%<br>91% | 21<br>28%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 80 | 77<br>96%<br>95% | 3<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 76 | 37<br>49%<br>77% | 39<br>51%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 74 | 56<br>76%<br>84% | 18<br>24%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 11 | 19 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 37% | 63% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 16 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 53% | 43% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 30 | 19 | 11 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 14 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 50% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 29 | 8 | 20 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 69% | 3% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 29 | 13 | 16 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 27 | 11 | 16 | 0 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 41% | 59% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 5 | 16 | 2 | 3 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 19% | 62% | 8% | 12% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 10 | 20 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 9 | 18 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 32% | 64% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 13 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 43% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 25 | 6 | 18 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 24% | 72% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 7 | 18 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 23% | 60% | 17% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 16 | 10 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 53% | 33% | 13% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 25 | 9 | 13 | 3 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 36% | 52% | 12% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 29 | 8 | 21 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 28% | 72% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 7 | 10 | 1 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 39% | 56% | 6% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 9 | 17 | 3 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 31% | 59% | 10% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 14 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Barry | Arolygydd Tîm |
| James Makin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Lisa Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.